**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad | Date: 8 Hydref 2021

Pwnc | Subject: **Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran cefnogaeth i'r Gymraeg**

Annwyl Jeremy

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 29 Medi i drafod eich portffolio. Yn ystod y cyfarfod, fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am nifer o faterion a gododd.

**Pasbortau brechlyn**

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran sicrhau bod y Pas COVID ar gael yn Gymraeg a bod y broses electronig o wneud cais am un hefyd ar gael yn ddwyieithog?

**Dysgu ar-lein**

A allwch chi ddarparu'r ffigurau ar gyfer nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg ar-lein gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol? Os yw ar gael, a allwch chi hefyd ddarparu'r ffigurau ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r apiau 'Say Something in Welsh' a 'Duolingo'?

Mae'r Aelodau'n pryderu am y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg lle mae trafferthion o ran mynediad digidol. Yn **ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad** ar effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg, rydych yn nodi nifer o gamau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael mynediad at rwydweithiau digidol a chodi sgiliau digidol, mewn ymateb i'r ail argymhelliad ar 'Gynhwysiant Digidol'. A chi allwch nodi'r amserlen ar gyfer cyflawni'r camau hyn?

**Defnydd Cymunedol o'r Gymraeg**

Yng nghynllun gweithredu '**Cymraeg 2050 – ein cynllun ar gyfer 2021 – 2026**' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

> 'Sefydlu a chefnogi comisiwn i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol.'

A allwch chi nodi:

- Yr amserlen ar gyfer sefydlu'r grŵp hwn;
- Cylch gorchwyl y grŵp, yn benodol, ei gyfrifoldebau tuag at gynllunio a hyrwyddo'r iaith;
- Y broses ar gyfer penodi aelodaeth y grŵp hwn a pha fathau o gefndir, arbenigedd a phrofiad y byddwch yn gobeithio fydd gan yr aelodau a benodir;
- Sut y bydd disgwyl i'r grŵp weithio gyda a / neu gynghori Llywodraeth Cymru; a
- Y meini prawf ar gyfer barnu llwyddiant y grŵp.

**Bil Addysg Gymraeg Arfaethedig**

Yn ystod y cyfarfod, dywedasoch y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Addysg Gymraeg i 'gryfhau fframweithiau statudol'. A allwch chi roi mwy o fanylion i'r Pwyllgor am amseriad a chynnwys y Bil?

Yn benodol, roedd yr Aelodau'n teimlo y gall yr hawl i addysg gyfrwng Gymraeg fod yn anodd i deuluoedd fanteisio arni heb gefnogaeth ychwanegol. A allwch chi nodi eich cynlluniau ariannu ac unrhyw gymorth ychwanegol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth hon fel ei bod yn galluogi pawb sy'n dymuno cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i wneud hynny?

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Diolch i chi am gynnig rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth fydd eich amserlen ar gyfer cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn ystod y Chweched Senedd. Dywedasoch y bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan waith i ddeall yn well sut mae'r safonau wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'r heriau a gaiff eu hwynebu gan sefydliadau, sy'n eu hatal rhag darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

A allwch chi ddweud wrth y Pwyllgor sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ac ai eich bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Rheoliadau Drafft sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg ar gyfer Trafnidiaeth Cymru?

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

Yn eich papur i'r Pwyllgor, nodwch y dyrannwyd £200,000 i'r Eisteddfod Genedlaethol o Gronfa Ymateb i COVID-19 i 'sicrhau bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol i gynllunio Eisteddfodau

Cenedlaethol 2022 a 2023' a 'c[h]efnogi prosiect peilot cynhwysiant cymdeithasol a chymunedol'.

A allwch chi roi gwybod i'r Pwyllgor sut y gwariwyd yr arian hwn ac a oes gan y sefydliad ddigon o arian iddo gyflawni ei amcanion?

A fu unrhyw drafodaeth gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ynghylch cymorth cyllid tymor hwy y tu hwnt i'r pandemig?

**Darpariaeth trochi hwyr**

A allwch chi ddarparu manylion pellach am y cyllid i **gefnogi trochi hwyr ar lefel ysgol?**

- Pa awdurdodau lleol sy'n cynnig darpariaeth trochi hwyr ar lefel ysgol ar hyn o bryd?
- Pa awdurdodau lleol sydd wedi gwneud cais am y cyllid ychwanegol hwn hyd yma?
- Beth yw'r broses i awdurdodau lleol wneud cais am gyllid? a
- Sut y caiff y cyllid ei hyrwyddo?

**Materion eraill**

Yn olaf, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu copi i'r Pwyllgor, pan gaiff ei gyhoeddi, o'ch ymateb i'r argymhellion ar yr adolygiad cyflym o'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg, a'ch ymateb i'r datganiad gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar yr Adroddiadau Ehangu Mynediad?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 5 Tachwedd 2021.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol